**Pwyntiau gweithredu a phwyntiau gwybodaeth yn codi o Grŵp Ecosystem Tir Ffermio Caeedig (EFEG) Bioamrywiaeth Cymru**

**28 Ebrill 2015, Ystafell Fideo Gynadledda, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ac ymweliad safle â Fferm Tŷ'n y Cae, 10.30-3.30pm**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd: | Clare Burrows (CB) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Yn bresennol: | Alun Davies (AD) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Amanda Davies (AmD) | Cyngor Sir y Fflint |
| | Carwyn ap Myrddin (CM) | Parc Cenedlaethol Eryri |
| | Lawrence Gotts | Cyngor Sir y Fflint |
| | Liz Lewis-Reddy (LLR) | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn |
| | Tracey Lovering (TL) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cofnodion: | Jane Stevens (JS) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ymddiheuriadau: | Afon Williams | RSPB |
| | Colin Cheesman | Plantlife |
| | Gethin Evans | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| | Ian Harris | Prifysgol Bangor |
| | Julian Woodman | Cyfoeth Naturiol Cymru |

2. Pwyntiau gweithredu a materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf

**AP 1: Codi ymwybyddiaeth o adroddiad Hedgelink ar y gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan wrychoedd drwy PES, gweithgor ymarferwyr, (AD). Cyflenwi i Ann Humble a TL, a hefyd i CM (CB).**

**AP 2: Unwaith y byddant ar gael, cylchredeg manylion am y gweithdy cysylltu gwrychoedd sydd i'w gynnal (CB).**

**AP 3: Cysylltu â Cath Shellswell ynghylch Pwyntiau Gweithredu 10-12 o gyfarfod EFEG ar 4 Tachwedd 2014 (CB).**

**AP 4: Cylchredeg manylion, os byddant ar gael, am y chwyn tir âr sy'n cael eu treialu fel rhywogaeth o gnwd porthi, e.e. Llyriad yr Ais (LLR).**

IP 1: Mae adroddiadau planhigion tir âr is-sirol o'r prosiect REF ar gael, a dylai unrhyw un sydd am dderbyn copi o'r adroddiad ar gyfer eu hardal is-sirol hwy ofyn i CB.

**AP 5: Ymgysylltu â Patrick Green i weld a yw'r mapiau targedu a gynhyrchwyd gan y grwpiau Ecosystem yn cael eu defnyddio yn ardal treialu rheoli adnoddau naturiol Dyfi (TL).**

**AP 6: Cysylltu â staff NRW ynghylch y rôl amaeth-arwain flaenorol i hyrwyddo manteision planhigion tir âr yn ystod ymweliadau fferm. Cyflenwi gyda pdf o arweinlyfr newydd Plantlife ar gyfer adnabod planhigion tir âr dan fygythiad (AD, CB, JW, SH).**

**AP 7: Gwirio cynnwys ar gyfer EFEG ar wefan WBP i sicrhau ei fod yn gyfredol, e.e. rhestr aelodaeth, pwyntiau gweithredu, gweithredu tir âr (CB, JS).**

3. Diweddariad WBP

IP 2: Mae Llywodraeth Cymru'n sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen i ddatblygu pwyntiau gweithredu a thargedau ar gyfer y Cynllun Adfer Natur, e.e. tystiolaeth well, adferiad, llywodraethu gwell, ymgysylltu a chefnogaeth ar ganlyniadau'r RDP. Mae'r aelodaeth drwy wahoddiad, ond os hoffai unrhyw un gymryd rhan, dylech e-bostio Dai Harris Dai.Harris@Wales.GSI.Gov.UK i holi.
**AP 8: Ymgysylltu â Dai Harris ynghylch cysylltu gwaith WBP i gynllun strategaeth amaethyddol newydd Llywodraeth Cymru sydd i'w lansio ar 4 Mehefin (TL).**

IP 3: Mae WBP yn cynhyrchu cylchlythyr misol. Dylai unrhyw un sydd am gael ei roi ar y rhestr bostio gysylltu â Sean McHugh smchugh@wtwales.org.

4. Diweddariad ar gynefin - Gwrychoedd

**AP 9: Trefnu cyfarfod o bobl gyda diddordeb i symud ymlaen gyda rhai o'r syniadau yn y bid Hedgewatch (CB).**

IP 4: Hoffai CB drefnu cyfarfod o bobl gyda diddordeb ym mis Medi i drafod effaith Clefyd y Coed Ynn ar wrychoedd.

IP 5: Lansiwyd cangen Cymru o'r Fforwm Coed Hynafol ym Mharc Dinefwr wythnos diwethaf. Cysylltwch â TL t.lovering@btinternet.com os ydych am gymryd rhan.

**AP 10: Cysylltu â Rachel Palmer am ddiweddariad ar y Prosiect Fforest Hir (CB).**

Diweddariad ar gynefin - Perllannau

**AP 11: Cyflenwi person cyswllt ar gyfer prosiect perllannau REF Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i CM (CB).**

**AP 12: Cadarnhau a yw'r gronfa ddata rhestr perllannau PTES ar gyfer Cymru'n cael ei diweddaru'n dilyn y gwaith gwirio daear yn Sir Drefaldwyn (LLR).**

**AP 13: Cadarnhau a dderbyniodd berllan sydd dan fygythiad o ddatblygiad gyllid drwy REF (TL i roi'r manylion i AmD).**

Diweddariad ar gynefin - Ffridd

**AP 14: Anfon diffiniad cytunedig ar gyfer Ffridd, gydag adendwm ar lefelau carbon yn y pridd, i Caryn La Roux, gyda golwg ar ofyn iddo gael ei ychwanegu at y rhestr S42 a chael ei ystyried ynghyd â'r RDP etc (CB).**

IP 6: Mae gwefan Coed Cadw'n cynnig dull o ymgyrchu dros ddiwygio canllawiau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt cynllun taliadau sylfaenol yr UE i wneud coed gyda llystyfiant o danynt yn gymwys, ac i gydnabod gwerth coed ar ffermydd yng Nghymruhttp://www.woodlandtrust.org.uk/get-involved/campaign-with-us/our-campaigns/keep-trees-on-farms/

**AP 15: Sefydlu a yw'r fferm lle gwelodd TL goed gwrych yn cael eu torri'n ddiweddar yn fferm Glastir (TL i roi lluniau a chyfeirnodau grid i CB).**

**AP 16: Cylchredeg yr adroddiad ar brosiect Ffridd REF i bawb (CB).**

5. Trafod gweithredu ar berllannau a blaenoriaethau ymchwil

IP 7: Mae fersiwn Map Google o fapiau PTES o Berllannau Traddodiadol yng Nghymru i'w gweld ar wefan PTES yn <http://ptes.org/get-involved/surveys/countryside-2/traditional-orchard-survey/orchard-maps/>. Nid yw'n bosibl lawrlwytho'r set ddata o wefan NRW ar hyn o bryd. Cysylltwch â CB neu JS os hoffech dderbyn copi GIS.

**AP 17: Cadarnhau a allai gwefan WBP gynnwys tudalen ar Berllannau Traddodiadol i weithredu fel ystorfa o wybodaeth a dolenni (TL i siarad â Sean McHugh a CB i ôl-ddilyn ar hyn).**

**AP 18: Darganfod a yw Perllannau Traddodiadol yn cael eu hymgorffori ym mhrosiect mapio HNV CEH (CB).**

**AP 19: Parhau i fewnbynnu gwybodaeth am Berllannau Traddodiadol i ddatblygiad Glastir (CB).**

**AP 20: Cyflwyno Cynnig Prosiect Ymchwil o dan y Prosiect Bylchau Tystiolaeth i asesu darpariaeth PES o berllannau (LLR).**

6. Unrhyw Fater Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

**AP 21: Cylchredeg gwybodaeth am Brosiect Hadau Mileniwm Gerddi Kew sy'n casglu hadau coed yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf (LLR).**

**AP 22: Cylchredeg dolen Meet-O-Matic i benderfynu ar ddyddiad y cyfarfod nesaf ym mis Hydref 2015 (JS).**